


Allt Clyn

Teithiau Byr



Allt Clyn

Teithiau Byr

Hyd: 45 munud

Pellter: 1.1 milltir (1.8 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim.

Cyfeirnod map: SN008343

Cymeriad: Coetir conwydd a chollddail, llethrau serth.

Dim sticlau, llwybr anwastad.

O'r maes parcio cymerwch y trac llydan i fyny i mewn i'r goedwig, dilynwch y trac ac anwybyddwch y llwybrau i'r chwith. Mae'r trac yn troi i'r dde ac yn dringo. Ble mae'n dod yn wastad, dilynwch y trac i'r chwith a throwch i'r chwith eto wrth y postyn marcio'r llwybr sydd â map a dilynwch y trac llydan i lawr. Wedi cyrraedd ardal agored, dewiswch y llwybr o'ch blaen i'r chwith o'r goeden dderw (y canol o dri llwybr).

Dilynwch y llwybr i lawr a throwch i'r chwith yn siarp ble mae'n wastad (chiliwch am farcwyr llwybr ar y chwith). Dilynwch y llwybr mwy cul trwy'r coed a, ble mae'r llwybr yn fforcio, cymerwch y llwybr ar yr ochr chwith gan fynd i fyny'r tyle ychydig bach. (Fe all fod yn anodd gweld y fforc hon. Os nad ydych wedi ei gweld ac os ydych yn cyrraedd nant, peidiwch â chroesi'r nant, yn lle throwch i'r chwith ac yna i'r dde ar unwaith i fyny'r tyle). Throwch i'r dde dros bont gerdded wrth bostyn marcio'r llwybr. Dilynwch lwybr cul, gan fynd i fyny'r tyle yn y pendraw at drac llydan. Throwch i'r dde wedi cyrraedd y llwybr llydan a'i ddilyn yn ôl i lawr at y maes parcio.